

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc  
Amser: 09.15 0300 200 6565  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 26)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-05-794 Gostwng yr Oedran Pleidleisio i Un ar Bymtheg  
(Tudalennau 27 – 35)

2.2 P-05-795 Achosi Niwsans neu Aflonyddwch ar safleoedd y GIG  
(Tudalennau 36 – 40)

2.3 P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio  
anifeiliaid gwyllt mewn syrcau yng Nghymru  
(Tudalennau 41 – 56)

2.4 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel  
mater o frys  
(Tudalennau 57 – 68)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

#### Economi a thrafnidiaeth

3.1 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477A4075  
(Tudalennau 69 – 70)

#### Addysg



3.2 P-05-722 Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig  
(Tudalen 71)

3.3 P-05-787 Achub Cenhedlaeth y Dyfodol yng Nghymru  
(Tudalennau 72 – 75)

## **Cymunedau**

3.4 P-05-742 Peidiwch â gadael i Forsythia gau!  
(Tudalennau 76 – 79)

## **Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol**

3.5 P-05-766 Dylid Gwneud Opsiwn Fegan yn Orfodol Mewn Ffreuturiau  
Cyhoeddus  
(Tudalen 80)

3.6 P-05-764 Gwell Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion  
(Tudalennau 81 – 82)

3.7 P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu –  
adnabyddiaeth a chefnogaeth  
(Tudalennau 83 – 100)

## **Tai**

3.8 P-05-790 Mynd i'r afael â chysgu ar y stryd  
(Tudalennau 101 – 104)

## **Ynni, cynllunio a materion gwledig**

3.9 P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan  
(Tudalennau 105 – 109)

## **4 Sesiwn dystiolaeth – P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant**

(Tudalennau 110 – 127)

- Paul Apreda, Deisebydd

- Dr Sue Whitcombe, Seicolegydd Siartredig

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## P-05-794 Gostwng yr Oedran Pleidleisio i Un ar Bymtheg

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sgiliau, ar ôl casglu 87 o lofnodion ar-lein.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ostwng yr oedran pleidleisio i un ar bymtheg ar gyfer yr etholiadau hynny lle y mae ganddo'r pwerau i wneud hynny.

### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Rydym yn byw mewn cymdeithas ddemocrataidd a dylai pob aelod ohoni feddu ar y gallu i fod yn gyfrifol am eu dewisiadau yn ein gwlad. Yn un ar bymtheg gallwch briodi, cael babi, a thalu trethi. Yn un ar bymtheg gallwch gyfrannu at economi'r wlad, ond ni allwch eto benderfynu sut y caiff arian cyhoeddus ei wario.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Islwyn
- Dwyrain De Cymru

## Gostwng yr oedran pleidleisio i un ar bymtheg

Y Pwyllgor Deisebau | 23 Ionawr 2018

Petitions Committee | 23 January 2018

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-794

Teitl y ddeiseb: Gostwng yr oedran pleidleisio i un ar bymtheg

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ostwng yr oedran pleidleisio i un ar bymtheg ar gyfer yr etholiadau hynny lle y mae ganddo'r pwerau i wneud hynny.

### Y cefndir

Mae [Deddf Cymru 2017](#) yn rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaethau'n ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol, gan gynnwys y gallu i ostwng yr oedran pleidleisio. Disgwylir i'r darpariaethau perthnasol ddod i rym ar 1 Ebrill 2018.

18 yw'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer holl etholiadau a refferenda yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, caniatwyd i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio yn y Refferendwm Annibyniaeth ym mis Medi 2014. Yn ôl adroddiad y [Comisiwn Etholiadol](#) ar Refferendwm Annibyniaeth yr Alban, cofrestrodd 109,593 o bobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio yn refferendwm yr Alban. Dywedodd 75% o'r bobl ifanc 16-17 oed y siaradodd y Comisiwn Etholiadol â nhw eu bod wedi pleidleisio a dywedodd 97% o'r rheiny y byddent yn pleidleisio eto mewn etholiadau a refferenda yn y dyfodol. Ers hynny, mae Senedd yr Alban wedi pasio [Deddf Etholiadau'r Alban \(Gostwng yr Oedran Pleidleisio\) 2015](#) gan ostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn etholiadau Seneddol yr Alban ac etholiadau lleol.

16 yw'r oedran pleidleisio isaf yn Ynys Manaw, Jersey a Guernsey hefyd.

Fel yr amlinellwyd ym [Mhapur Briffio Gwasanaeth Ymchwil Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar yr Oedran Pleidleisio](#), bu ymdrechion yn ystod hynt Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015-16 i ddiwygio'r Bil er mwyn ehangu'r etholfraint ar gyfer y refferendwm a chynnwys

pobl ifanc 16 ac 17 oed. Cytunwyd ar y gwelliant yn Nhŷ'r Arglwyddi pan bleidleisiodd 293 o'i blaid a 211 yn ei erbyn, ond cafodd ei wrth-droi wedyn yn Nhŷ'r Cyffredin.

Cyflwynwyd dau Fil Aelod Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin gyda'r nod o ostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r DU. Bydd [Bil Cynrychiolaeth y Bobl \(Rhyddfraint ac Addysg Pobl Ifanc\) 2017-19](#) Jim McMahon AS a [Bil Cynrychiolaeth y Bobl \(Rhyddfraint Pobl Ifanc\) 2017-19](#) Peter Kyle AS yn cael Ail Ddarlleniad ar 11 Mai 2018. Mae [Bil Aelod Preifat](#), at yr un perwyl, hefyd wedi'i gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ym mis Mehefin 2017, mewn briff o'r enw [Votes at 16](#), dywedodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol eu bod o blaid rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed ym mhob etholiad a refferendwm. Yn ôl y Gymdeithas:

Enfranchising younger people is one of the ways we can try to build a better democracy in the UK. There is a widening gulf between people and politics - we see lowering the franchise as vital to nurturing more active citizens for the future health of our democracy. Giving 16 and 17 year olds a vote provides an opportunity to get the next generation more engaged with politics.

## Y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Daeth [ymgyngoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadau lleol yng Nghymru](#) i ben ar 10 Hydref 2017 ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Fel rhan o'r broses hon, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch ymestyn yr etholfraint i gynnwys pawb sy'n 16 oed ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi:

Bu'n bolisi gan Lywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn i ostwng yr oed pleidleisio i 16, ac yn wir fe bleidleisiodd y Cynulliad o blaid hyn gyda mwyafrif clir ym mis Mai 2013. At hynny, cynhwyswyd y polisi ym maniffesto'r Blaid Lafur, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Etholiad Cyffredinol. Dylem fod mewn sefyllfa i weithredu hyn yn fuan.

Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, dyddiedig 5 Rhagfyr 2017, dywedodd y Prif Weinidog mai:

bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau nesaf y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol.

## Y camau a gymerwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 [ymgyngorodd y Cynulliad â phobl ifanc](#) a daeth i'r amlwg fod 53% o'r 10,375 a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed.

Ym mis Chwefror 2017, sefydlodd Comisiwn y Cynulliad [Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol](#). Un o ddibenion y Panel Arbenigol oedd cynghori Comisiwn y Cynulliad ynghylch yr oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad. Cyflwynodd y Panel ei [adroddiad](#) ym mis

Rhagfyr 2017 ac argymhellodd y dylid lleihau'r oedran pleidleisio lleiaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16 yn effeithiol o etholiad 2021 (Argymhelliad 14). Yn ôl y Memorandwm:

Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i hystyried yn awgrymu y byddai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn fodd grymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc. At hynny, pe byddai Llywodraeth Cymru yn deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru o 2022 ymlaen, byddai'n anghyson iawn, ac yn codi materion gwleidyddol a gweinyddol ychwanegol, pe na byddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021 ymlaen hefyd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod etholiadau sy'n cael mwy o sylw yn fwy tebygol o arwain at gynnydd yn y gyfran sy'n pleidleisio; felly mae'n ddymunol, pe byddai'r etholfraint yn cael ei hymestyn yng Nghymru, ei bod yn cael ei defnyddio gyntaf yn etholiad y Cynulliad, gan fod hwnnw'n denu mwy o sylw [para 15.39]

Daeth y Panel i'r casgliad hefyd:

I sicrhau y caiff pobl ifanc eu hannog a'u cefnogi i arfer eu hawl i bleidleisio, dylai unrhyw ostyngiad yn yr oedran pleidleisio gael ei gyflwyno law yn llaw ag addysg briodol, effeithiol ac amhleidiol o ran gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth. [para 16.38]

Ar 10 Ionawr 2018, mewn a llythyr yn ymateb i'r ddeiseb hon, dywedodd y Llywydd y:

bydd Comisiwn y Cynulliad yn ymgynghori'n gynnar yn 2018 ynghylch sut y dylid bwrw ymlaen ag argymhellion y Panel a'r rhaglen ddiwygio ehangach.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.





Eich cyf/Your ref: P-05-794  
Ein cyf/Our ref: FM -/05058/17

David John Rowlands AC  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk](mailto:government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk)

5 Rhagfyr 2017

Annwyl David

Rwyf yn ymateb i'ch llythyr ar 21 Tachwedd, anfonwyd yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylid ymestyn y rhyddfraint ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau'r Llywodraeth Leol ac Cynulliad i gynnwys pawb sy'n 16 oed neu'n hŷn yn ystod y diwrnod pleidleisio. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn y papur ymgynghori "Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017. Daeth yr ymgynghoriad i ben fis diwethaf ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed eisioes yn gallu pleidleisio mewn etholiadau yn yr Alban a hefyd wedi pleidleisio mewn niferoedd mawr yn refferendwm yr Alban yn 2014. Mae gan bobl ifanc ddiddordeb mawr mewn materion gwleidyddol ac mae elfen dinasyddiaeth weithgar o addysg bersonol a chymdeithasol yn galluogi ystyried digwyddiadau cyfredol tra maen nhw'n dal yn yr ysgol.

Bwriad Llywodraeth Cymru y bydd pobl 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol.

Yn Gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

David Rowlands AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

10 Ionawr 2018

Annwyl David

### **Deiseb P-05-794 Gostwng yr oedran pleidleisio i un ar bymtheg**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd 2017 ynghylch deiseb P-05-794, sy'n galw am ostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i un ar bymtheg.

Arweiniodd y Fonesig Rosemary Butler, Llywydd y Pedwerydd Cynulliad, ymgynghoriad yn 2015 ynghylch a ddylai pobl ifanc 16 ac 17 oed gael yr hawl i bleidleisio. Cymerodd dros 10,000 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru ran yn yr ymgynghoriad: o'u plith dywedodd 53 y cant y dylid gostwng yr oedran pleidleisio, dywedodd 29 y cant na ddylid gwneud hynny, ac roedd 18 y cant yn ansicr.

Fel y gwyddoch, penodais Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ym mis Chwefror 2017, gyda'r nod o ystyried beth ddylai'r oedran pleidleisio isaf fod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, yn ogystal â materion yn ymwneud â maint a system etholiadol y Cynulliad.

Cyhoeddodd y Panel Arbenigol ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2017: [\*\*\*Senedd sy'n Gweithio i Gymru\*\*\*](#). Daeth i'r casgliad y byddai gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16 fod yn fodd pwerus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc. Nododd y Panel fod Llywodraeth Cymru yn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

Tudalen y pecyn 32

0300 200 7403



bwriadu deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru i 16 o 2022 ymlaen, ac awgrymodd:

*"...byddai'n anghyson iawn, ac yn codi materion gwleidyddol a gweinyddol ychwanegol, pe na byddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021 ymlaen hefyd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod etholiadau sy'n cael mwy o sylw yn fwy tebygol o arwain at gynnydd yn y gyfran sy'n pleidleisio; felly mae'n ddymunol, pe byddai'r etholfraint yn cael ei hymestyn yng Nghymru, ei bod yn cael ei defnyddio gyntaf yn etholiad y Cynulliad, gan fod hwnnw'n denu mwy o sylw."*

Mae materion ynghylch yr oedran pleidleisio isaf i'w gweld ym mhennod 15 yn adroddiad y Panel, sy'n gwneud tri argymhelliad (sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn er hwylustod).

Mae adroddiad y Panel Arbenigol yn rhan o waith ehangach y Comisiwn i ddiwygio'r Cynulliad. Fel y gwyddoch, cyhoeddais y llynedd, yn dilyn cytundeb unfrydol y Cynulliad a chyfnod o ymgynghori cyhoeddus, fod Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu cyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r sefydliad i Senedd Cymru.

Ar ei ben ei hun, mae'r newid hwn yn ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o waith y Cynulliad, yn ogystal ag annog mwy o ymgysylltiad rhwng y sefydliad a'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Fodd bynnag, drwy gynnwys diwygiadau ehangach, gallai unrhyw ddeddfwriaeth Diwygio'r Cynulliad hefyd fod yn gyfle i:

- sicrhau bod gan y sefydliad y capasiti sydd ei angen arno i wasanaethu'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli;
- grymuso ein democratiaeth, ac ennyn diddordeb pobl ifanc;
- sicrhau bod trefniadau etholiadol a mewnol eraill y Cynulliad, er eu bod yn gadarn, hefyd yn darparu'r hyblygrwydd sy'n briodol ar gyfer deddfwrfa aeddfed.

Yn sgil archwilio'r cyfleoedd ehangach hyn, cyhoeddais ym mis Mehefin y byddai cwmpas deddfwriaeth diwygio'r Cynulliad yn cael ei ystyried unwaith y byddai'r



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad wedi adrodd a bod y consensws gwleidyddol yn gliriach.

Fel y dywedais yn fy [natganiad ysgrifenedig ar 12 Rhagfyr 2017](#), ni ellir gwahanu materion cyfansoddiadol sylfaenol o'r natur a ystyriwyd gan y Panel Arbenigol oddi wrth realiti gwleidyddol democratiaeth gynrychioliadol yng Nghymru. Er mwyn sicrhau newid, bydd angen meithrin consensws gwleidyddol yn y Cynulliad a thu allan iddo. Felly bydd y cam nesaf yng ngwaith diwygio'r Cynulliad hefyd yn cynnwys ymgysylltiad eang, gyda holl Aelodau'r Cynulliad, gyda chymdeithas ddinesig a gwleidyddol ac, yn anad dim, gyda phobl Cymru. I'r perwyl hwnnw, bydd y Comisiwn yn ymgynghori yn gynnar yn 2018 ar sut y dylid bwrw ymlaen ag argymhellion y Panel a'r rhaglen ddiwygio ehangach.

Yn gywir

Elin Jones

Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



## Atodiad: Argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad sy'n ymwneud â'r oedran pleidleisio isaf

**Argymhelliad 14.** Dylai'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad gael ei ostwng i 16 oed o etholiad 2021 ymlaen.

**Argymhelliad 15.** Pe byddai'r Cynulliad yn penderfynu deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16, dylai Comisiwn y Cynulliad gydweithio â Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol, pleidiau gwleidyddol ac eraill i gefnogi ac annog pobl ifanc i arfer eu hawl i bleidleisio, yn bwysicaf oll drwy ddarparu addysg ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth a chodi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, a thrwy unrhyw ffyrdd priodol eraill.

**Argymhelliad 16.** Rhaid i'r addysg ddinasyddiaeth a ddarperir i gyd-fynd ag unrhyw ostyngiad yn yr oedran pleidleisio:

- i Gydabod yr amrywiaeth o leoliadau lle caiff pobl ifanc 16 ac 17 oed addysg a hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod y rhai y tu allan i leoliadau ysgol traddodiadol hefyd yn cael eu cefnogi a'u hannog i fwrw'u pleidlais;
- ii Mynd ymhellach na dim ond amlinellu'r strwythurau democrataidd a'r prosesau ffurfiol, er mwyn ennyn diddordeb a hysbysu pobl ifanc am y materion sy'n bwysig iddynt;
- iii Sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddysgu am yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau gwleidyddol mewn ffordd amhleidiol;
- iv Cael ei darparu gan athrawon ac addysgwyr sydd wedi cael hyfforddiant o ansawdd uchel eu hunain er mwyn sicrhau bod yr addysg ddinasyddiaeth yn cael ei chymryd o ddifrif, ac i osgoi rhagfarn wleidyddol a'r canfyddiad o ragfarn wleidyddol;
- v Cael ei hadolygu ar ôl cyfnod addas i sicrhau bod ei dyluniad a'r modd y caiff ei chyflawni yn bodloni'r amcanion.

## Eitem 2.2

### P-05-795 Achos Niwsans neu Aflonyddwch ar safleoedd y GIG

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Claire Thomas, ar ôl casglu 74 o lofnodion ar-lein.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Creodd A119 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 bwerau i ddelio â phobl sy'n achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG. Ni chafodd hyn ei ddeddfu yng Nghymru, ac nid oes unrhyw ddarpariaethau i ddelio â phobl sy'n creu problemau ar gyfer y GIG yn y modd hwn.

Mae yna nifer o unigolion sy'n achosi problemau tra ar safleoedd y GIG, ac mae'r heddlu yn derbyn llawer o alwadau i ddelio ag ymddygiad o'r fath, ond nid oes unrhyw ffordd o ymdrin â'r mater hwn yn effeithiol gan nad oes trosedd benodol y gall yr heddlu ei defnyddio i atal pobl, heb fod ganddynt esgus rhesymol, sydd naill ai'n achosi aflonyddwch neu niwsans, yn gwrthod gadael yr adeilad pan ofynnir iddynt, neu nad ydynt ar y safle at ddiben cael cyngor, triniaeth neu ofal meddygol.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae'r gost i wasanaethau iechyd a'r heddlu wrth ddelio â phobl sy'n achosi niwsans ar safleoedd y GIG yn sylweddol. Mae nifer o'r unigolion hyn yn ymddangos dro ar ôl tro, ac nid oes unrhyw bwerau i ddelio â hyn. Mae eu presenoldeb hefyd yn achosi gofid i eraill sy'n mynd at y GIG am resymau dilys. Mae A119 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus gan yr heddlu ac iechyd yn Lloegr i fynd i'r afael â'r mater ers i'r adran benodol ddod i rym yn 2009, ac eto nid oes unrhyw bŵer i wneud hynny yng Nghymru, ac er bod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai pwerau tebyg i fynd i'r afael â'r mater hwn yn cael eu datblygu yng Nghymru, nid yw hyn wedi digwydd.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

## Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Rhif y ddeiseb: [P-05-795](#)

Teitl y ddeiseb: **Achosi Niwsans neu Aflonyddwch ar safleoedd y GIG**

Testun y ddeiseb: Creodd A119 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 bwerau i ddelio â phobl sy'n achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG. Ni chafodd hyn ei ddeddfu yng Nghymru, ac nid oes unrhyw ddarpariaethau i ddelio â phobl sy'n creu problemau ar gyfer y GIG yn y modd hwn.

Mae yna nifer o unigolion sy'n achosi problemau tra ar safleoedd y GIG, ac mae'r heddlu yn derbyn llawer o alwadau i ddelio ag ymddygiad o'r fath, ond nid oes unrhyw ffordd o ymdrin â'r mater hwn yn effeithiol gan nad oes trosedd benodol y gall yr heddlu ei defnyddio i atal pobl, heb fod ganddynt esgus rhesymol, sydd naill ai'n achosi aflonyddwch neu niwsans, yn gwrthod gadael yr adeilad pan ofynnir iddynt, neu nad ydynt ar y safle at ddiben cael cyngor, triniaeth neu ofal meddygol.

### Cefndir – Ymdrin â niwsans ac aflonyddu

Cyflwynodd *Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (CJIA)* ddarpariaethau newydd sy'n rhoi'r pŵer i'r heddlu a'r staff sy'n gweithio yn y GIG symud ac erlyn unigolion sy'n achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG.

Mae [Adrannau 119](#) a [120](#) o'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau ar gyfer staff y GIG i ymdrin â niwsans neu aflonyddwch. Creodd Adran 119 drosedd newydd o achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG. Mae Adran 120 yn rhoi pŵer i'r heddlu neu staff awdurdodedig y GIG symud rhywun y maent yn amau ei fod wedi cyflawni'r drosedd hon. Nid yw'r Ddeddf ond yn berthnasol i ysbytai'r GIG yn Lloegr.

### Trosolwg o'r drosedd a'r pŵer i symud

Mae Adran 119 yn trafod y drosedd o achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG. Bydd person wedi tramgwyddo os ydynt yn bodloni **pob un** o'r meini prawf a ganlyn:

a) eu bod yn achosi, heb esgus rhesymol a phan eu bod ar un o safleoedd y GIG, niwsans neu aflonyddwch i aelod o staff y GIG sy'n gweithio yno neu sydd fel arall yno mewn cysylltiad â'u gwaith, a

b) bod y person yn gwrthod, heb esgus rhesymol, adael un o safleoedd y GIG pan ofynnir iddo wneud hynny gan gwnstabl yr heddlu neu aelod o staff y GIG, a

c) nid yw'r person ar un o safleoedd y GIG er mwyn cael cyngor meddygol, triniaeth neu ofal i'w hun.

Mae Adran 120 yn rhoi pŵer i gwnstabiliaid yr heddlu, swyddogion awdurdodedig (ac aelodau staff priodol y GIG a awdurdodwyd gan swyddog awdurdodedig) symud person y maent yn amau'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan Adran 119. Gellir symud person o'r safle gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen. Ni all swyddog awdurdodedig symud person (neu awdurdodi person arall i wneud hynny) os ydynt yn credu bod angen cyngor, triniaeth neu ofal meddygol arno, neu os ydynt yn credu y byddai symud y person hwnnw yn peryglu ei iechyd corfforol neu feddyliol.

Y staff allweddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau hyn yw'r **Swyddogion Awdurdodedig**, sydd â'r rôl o asesu digwyddiad ac awdurdodi symud personau y maent yn amau eu bod wedi cyflawni trosedd, a **Staff priodol y GIG**, sydd â'r rôl o symud troseddwr pan fyddant wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd y GIG yn Lloegr ganllawiau ar sut i weithredu darpariaethau'r CJIA ['Guidance on provisions to deal with nuisance or disturbance behaviour on NHS premises in England'](#) (Saesneg yn unig).

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Creodd adran 119 o'r CJIA drosedd newydd yn erbyn y drefn gyhoeddus o achosi niwsans neu aflonyddwch i aelod o staff y GIG. Ni ellir carcharu unrhyw un am y drosedd hon, ond gall arwain at ddirwy sydd ag uchafswm o £1,000. Daeth yr adran hon i rym yn Lloegr ar 30 Tachwedd 2009. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Gorchymyn Cychwyn i roi adran 119 ar waith yng Nghymru.

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, a ddaeth i law ar 11 Rhagfyr 2017, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi ei fod yn ystyried ar hyn o bryd a yw hi bellach yn briodol rhoi Adran 119 ar waith yng Nghymru drwy gyhoeddi Gorchymyn Cychwyn.

### Trafodaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyhoeddodd Pwyllgor Archwilio y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad ['Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn y GIG'](#) ym mis Gorffennaf 2009.

### Gwybodaeth ychwanegol

Mae gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru ddyletswydd i amddiffyn staff rhag niwed yn y gweithle. Mae gan y GIG rwymedigaeth gyfreithiol i nodi'r risg o drais ac ymddygiad ymosodol a datblygu strategaethau priodol i ymdrin â'r risg hon.



Mae'r ffigurau a gafwyd gan y Coleg Nyrso Brenhinol drwy Gais Rhyddid Gwybodaeth yn dangos y bu 18,000 o ymosodiadau corfforol yn erbyn staff mewn ysbytai'r GIG yn ystod cyfnod o bum mlynedd rhwng 2011 a 2016.

Cafodd yr [Assaults on Emergency Workers \(Offences\) Bill](#) (Saesneg yn unig), sef Bil Aelod Preifat gan Chris Bryant AS, ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Gorffennaf 2017. Y cam nesaf fydd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Ebrill 2018. Mae'r Bil yn creu trosedd newydd o ymosodiad a churo yn erbyn gweithiwr argyfwng (gan gynyddu'r gosb hyd at uchafswm o 12 mis yn y carchar), ac mae hefyd yn creu ffactor gwaethgol statudol a fydd yn berthnasol yn achos ymosodiadau eraill a throseddau cysylltiedig yn erbyn staff y gwasanaethau brys.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ym [Mhapur Briffio](#) Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (Saesneg yn unig).

Vaughan Gething AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/05160/17

David John Rowlands AM  
Chair - Petitions committee.  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

11 Rhagfyr 2017

Annwyl David,

Diolch yn fawr am eich llythyr, dyddiedig 20 Tachwedd, ynglŷn â Deiseb P-05-795, Achos Niwsans neu Aflonyddwch ar safleoedd y GIG, a oedd yn gofyn am fy marn ar y materion a godwyd cyn ichi ystyried y ddeiseb yn ffurfiol am y tro cyntaf.

Rwyf wedi ymchwilio i'r mater hwn ac rwyf wrthi'n ystyried a yw hi'n bridol yn awr i weithredu adran 119 yng Nghymru trwy gyhoeddi Gorchymyn Cychwyn.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto am hyn yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 40

### **P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Linda Evelyn Joyce Jones ar ôl 1,517 o lofnodion ar-lein a 1,737 o lofnodion papur. Casglodd deiseb gysylltiedig 3,144 o lofnodion ar wefan amgen.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru. Mae Lles Anifeiliaid (ac eithrio hela ac arbrofi ar anifeiliaid) yn fater datganoledig yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2015, dywedodd Rebecca Evans AC (y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd), "Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes unrhyw le i anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau".

O dan ei chyfarwyddyd hi, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad annibynnol a chafwyd tystiolaeth gan dros 600 o arbenigwyr yn y maes. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2016, ac roedd y casgliadau'n glir.

Yn ôl yr adroddiad, mae'r dystiolaeth wyddonol yn dangos nad yw syrzasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yn bodloni'r gofynion lles a nodir o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Mae'r adroddiad hefyd yn datgan "Nid yw bywyd anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau a sŵau teithiol yn "fywyd da" nac yn "fywyd sy'n werth ei fyw".

Ym mis Rhagfyr 2016, dywedodd Lesley Griffiths AC (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig) fod Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at sefydlu system drwyddedu, debyg i honno sy'n cael ei rhedeg gan DEFRA yn Lloegr ar hyn o bryd. Dylid nodi bod Llywodraeth y DU wedi rhoi'r system hon ar waith yn 2011 fel mesur dros dro hyd nes y gellid gwaharddiad yr arfer.

Mae'r dogfennau trwyddedu sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn dangos yn glir fod y system drwyddedu hon yn methu yn ei hymdrech i ddiogelu anifeiliaid. Mae'r ddwy syrzas anifeiliaid sydd wedi'u trwyddedu o dan DEFRA ar hyn o bryd wedi torri amodau eu trwyddedau droeon, ac mae eu trwyddedau wedi'u hatal ar ryw adeg neu'i gilydd.

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan RSPCA Cymru, roedd 74% o bobl Cymru yn awyddus i'r arfer hwn gael ei wahardd. Cyflwynodd y corff hwn hefyd ddeiseb i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cymru yn 2015.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Arfon
- Gogledd Cymru

## P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau

Y Pwyllgor Deisebau | 23 Ionawr 2018

Petitions Committee | 23 January 2018

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: [P-05-796](#)

Teitl y ddeiseb: Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru. Mae lles anifeiliaid (ac eithrio hela ac arbrofi ar anifeiliaid) yn fater datganoledig yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2015, dywedodd Rebecca Evans AC (y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd), "Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes unrhyw le i anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau".

O dan ei chyfarwyddyd hi, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad annibynnol a chafwyd tystiolaeth gan dros 600 o arbenigwyr yn y maes. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2016, ac roedd y casgliadau'n glir.

Yn ôl yr adroddiad, mae'r dystiolaeth wyddonol yn dangos nad yw syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yn bodloni'r gofynion lles a nodir o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'r adroddiad hefyd yn datgan "Nid yw bywyd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau a sŵau teithiol yn "fywyd da" nac yn "fywyd sy'n werth ei fyw".

Ym mis Rhagfyr 2016, dywedodd Lesley Griffiths AC (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig) fod Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at sefydlu system drwyddedu, debyg i honno sy'n cael ei rhedeg gan Defra yn Lloegr ar hyn o bryd. Dylid nodi bod Llywodraeth y DU wedi rhoi'r system hon ar waith yn 2011 fel mesur dros dro hyd nes y gellid gwahardd yr arfer.

Mae'r dogfennau trwyddedu sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn dangos yn glir fod y system drwyddedu hon yn methu yn ei hymdrech i ddiogelu anifeiliaid. Mae'r ddwy syrcas

anifeiliaid sydd wedi'u trwyddedu gan Defra ar hyn o bryd wedi torri amodau eu trwyddedau droeon, ac mae eu trwyddedau wedi'u hatal ar ryw adeg neu'i gilydd.

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan RSPCA Cymru, roedd 74 y cant o bobl Cymru yn awyddus i'r arfer hwn gael ei wahardd. Cyflwynodd y corff hwn hefyd ddeiseb i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cymru yn 2015.

## Cefndir

### Lles anifeiliaid yng Nghymru

Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ynghylch "iechyd a lles anifeiliaid" yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Ni fydd *Deddf Cymru 2017* yn newid cymhwysedd y Cynulliad ynghylch lles anifeiliaid.

[\*Deddf Lles Anifeiliaid 2006\*](#) yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth ynghylch lles anifeiliaid yng Nghymru ac mae'n cynnwys y deddfau cyffredinol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid. Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi ystod o bwerau i Weinidogion Cymru, er enghraifft:

- adran 12 – gwneud rheoliadau i hyrwyddo lles anifeiliaid;
- adran 13 – trwyddedu neu gofrestru gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid; ac
- adran 16 – gwneud codau ymarfer.

(mae adran 16 yn trafod gwneud neu ddiwygio codau ymarfer gan y Cynulliad).

Fel [y nodwyd ar wefan Llywodraeth Cymru](#), o dan [\*Ddeddf Anifeiliaid Perfformio \(Rheoliad\) 1925\*](#) mae'n rhaid i bobl sy'n arddangos, yn defnyddio neu'n hyfforddi anifail perfformio yng Nghymru [fod wedi'u cofrestru gyda'u hawdurdod lleol](#) (nid yw hyn yn berthnasol i hyfforddi ac arddangos anifeiliaid at ddibenion y fyddin neu'r heddlu, nac ar gyfer amaethyddiaeth a chwaraeon). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi pwerau i'r heddlu a'r cynghorau fynd i mewn i adeiladau lle mae anifeiliaid yn cael eu hyfforddi a'u harddangos i wirio bod anifeiliaid yn cael eu cadw o dan amodau addas sy'n bodloni safonau iechyd, lles a diogelwch. Codir dirwy hyd at £2,500 ar gyfer methiant i gofrestru. Os caiff cwyn am greulondeb ei phrofi, gall arwain at wahardd unigolion rhag arddangos neu hyfforddi anifeiliaid perfformio yn y dyfodol.

### Lloegr

Yn Lloegr, mae [\*Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol \(Lloegr\) 2012\*](#) yn ei gwneud yn ofynnol i syrcasau teithiol fod â thrwydded i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt. Mae amodau'r drwydded yn nodi'r gofynion ar gyfer:

- darparu cynlluniau gofal;
- rheoli pwy all gael mynediad at yr anifeiliaid;
- trefnu gofal milfeddygol llawn; a

- gofynion lles o ran arddangos, hyfforddi a pherfformio, yn ogystal â gofynion ynghylch yr amgylchedd a thrafnidiaeth.

Gwnaed y rheoliadau hyn o dan adran 13 o *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*. [Cafodd canllawiau \(PDF 654KB\)](#) eu cyflwyno ym mis Tachwedd 2012 sy'n cynnwys safonau lles anifeiliaid y mae'n rhaid i ddeiliaid trwyddedau gydymffurfio â nhw. Mae rheoliad 1(4) yn cynnwys cymal 'machlud' sy'n golygu y bydd effaith y rheoliadau yn dod i ben saith mlynedd ar ôl iddynt ddod i rym.

Mae Llywodraeth y DU ar sawl achlysur wedi trafod camau i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau. Ar 16 Ebrill 2013, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) Fil drafft gyda'r bwriad o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau teithiol yn Lloegr o fis Rhagfyr 2015. Yn ei adroddiad craffu, [argymhellodd](#) Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fod Llywodraeth y DU yn adolygu cynnwys y Bil, gan awgrymu rhestr o anifeiliaid gwyllt gwaharddedig mewn syrcau yn hytrach na gwaharddiad llawn. Gwrthodwyd hyn gan Lywodraeth y DU yn ei [hymateb](#). Dywedodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ddymunol i waharddiad o'r fath fod yn gymwys ledled y DU. Cafwyd yr ymateb a ganlyn gan Lywodraeth y DU:

As the Committee is aware. Defra Minister Lord de Mauley wrote to his three counterparts in the Devolved Administrations last November offering to extend the territorial scope of the Bill to their countries. The Government remains committed to working with the Devolved Administrations on reaching a coordinated position on this matter before a Bill is introduced. [...] The Minister for Natural Resources and Food in the Welsh Government, Alun Davies, has already written to Lord de Mauley confirming he would want his officials to work with Defra to produce a Bill that applies to England and Wales.

Ar 20 Chwefror 2017, cafodd [Bil Aelod preifat, sef yr \*Wild Animals in Circuses \(Prohibition\) Bill 2016-17\*](#) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn ymdrin â Lloegr yn unig, roedd disgwyl i'r Bil gael ei ail ddarlleniad ar 12 Mai 2017. Fodd bynnag, methodd y Bil yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU. Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth debyg wedi'i rhestru ar hyn o bryd yn y Biliau gerbron Senedd y DU yn 2017-19, nac yn y Biliau drafft ar gyfer 2017-18.

## Camau gweithredu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau wedi cael tipyn o sylw cyhoeddus ac roedd yn destun deiseb flaenorol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ([P-04-653](#)). Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan RSPCA Cymru, ac roedd yn galw am waharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau. Ymatebodd Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog dros Ffermio a Bwyd ar y pryd, i'r ddeiseb drwy gyhoeddi adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth ar les anifeiliaid mewn syrcau teithiol a sefydlog. Yn dilyn hyn, cytunodd y Pwyllgor Deisebau i gau'r ddeiseb.

Mae'r mater hefyd yn aml yn destun cwestiynau yn y Cynulliad. Ar 16 Hydref 2017, [gofynnodd Siân Gwenllian AC i Lywodraeth Cymru](#) a oes unrhyw rwystrau cyfreithiol presennol sy'n gwahardd defnyddio anifeiliaid gwylt mewn syrcau yng Nghymru, ac a fyddai'r rwystrau hyn yn diflannu ym mis Ebrill 2018 (sef y dyddiad cychwyn disgwylidig ar gyfer nifer o ddarpariaethau Deddf Cymru 2017). Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig nad oedd unrhyw rwystrau cyfreithiol. Ar 15 Tachwedd 2017, cyflwynodd Steffan Lewis AC [gwestiwn ysgrifenedig](#) yn gofyn am ddatganiad ysgrifenedig ar gyflwyno gwaharddiad ar syrcau sy'n defnyddio anifeiliaid yng Nghymru. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

There is concern the welfare needs of some animals kept by Mobile Animal Exhibits (MAEs), including hawking displays, reindeer at Christmas events and, of course, performing wild animals in circuses cannot be met in a travelling environment. MAEs are diverse and there is no standard licensing regime or requirement for routine inspection. We must decide whether or not a change of policy and/or the law is required to protect the welfare of animals in MAEs. A licensing or registration scheme could improve the welfare of animals in travelling environments and also legitimise businesses operating as MAEs in Wales.

I recently consulted on the introduction of a licensing or registration scheme for MAEs. The consultation also asked for views on banning the use of wild animals in circuses. Officials are now analysing responses to the consultation, the first on this subject, which will be used to inform the next steps and I will make a statement on this before 15th December.

Details of the outcome of the consultation will be published on the Welsh Government website in due course.

## Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

### Adolygiad annibynnol o faterion lles anifeiliaid mewn syrcau

Fel y nodwyd eisoes, mewn ymateb i ddeiseb flaenorol gan RSPCA Cymru, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o faterion ynghylch lles anifeiliaid mewn syrcau. Cafodd yr [adroddiad](#) yn deillio o'r adolygiad hwn ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2016. Wrth ymchwilio i les (corfforol a meddyliol) anifeiliaid mewn syrcau teithio, canfu'r adolygiad:

The available scientific evidence indicated that captive wild animals in circuses and other travelling shows do not achieve their optimal welfare requirements, as set out under the Animal Welfare Act 2006, and the evidence would therefore support a ban on using wild animals in travelling circuses and mobile zoos on animal welfare grounds.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at arolwg gan yr RSPCA yn 2009 (a ddiweddarwyd yn 2016) a ganfu fod deg awdurdod lleol yng Nghymru wedi gwahardd syrcau ar eu tir.



## Ymgynghoriad ar Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid

Mewn [datganiad Gweinidogol](#) ar 15 Rhagfyr 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd ei bod hi'n awyddus i fynd i'r afael â lles anifeiliaid mewn arddangosfeydd teithiol, gan gynnwys syrcau. Nododd fod ei swyddogion yn datblygu cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer arddangosfeydd teithiol o'r fath a fyddai'n mynd i'r afael â materion arolygu a gorfodi. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru [ymgyngoriad](#) (rhwng 17 Gorffennaf a 8 Hydref 2017) ar ddichonoldeb system o'r fath ar gyfer arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid sy'n cynnwys anifeiliaid domestig ac egstotig yng Nghymru. Tynnodd y ddogfen ymgynghori sylw at y sefyllfa a ganlyn yng Nghymru:

Cafodd arolwg casglu data ei gynnal gydag Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddechrau 2017 a datgelodd fod o leiaf 53 ADA yng Nghymru. [...]

Ceir amrywiaeth o wahanol fathau o ADA [arddangosfa deithiol o anifeiliaid] ac nid oes trefn drwyddedu safonol na gofyn i gynnal archwiliad rheolaidd. Mae ambell ADA wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliad) 1925. Mae hyn yn gofrestru am oes ac nid oes gofyn penodol ynddi i gynnal archwiliadau. O'r herwydd, mae'n annhebygol bod safonau lles llawer o anifeiliaid perfformio yng Nghymru'n cael eu hasesu.

Mae'r datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn nodi:

Nid wyf wedi diystyru'r posibilrwydd o wahardd anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio mewn syrcau yn y dyfodol yng Nghymru, ac rwyf wedi cadw posibilrwydd o barhau i gynnwys hyn mewn unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n cael ei ddatblygu ar y mater hwn. Fodd bynnag, ni allwn aros am byth i'r posibilrwydd hwnnw godi.

Roedd yr ymgynghoriad, felly, hefyd yn ceisio barn ar wahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcau yng Nghymru.

Cafodd datganiad ysgrifenedig a chrynodeb o'r ymatebion eu [cyhoeddi](#) gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2017. Oherwydd bod "y rhan fwyaf o'r ymatebwyr" yn cytuno y dylid cael trefn ar gyfer trwyddedu neu gofrestru arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid (gyda'r mwyaf yn ffafrio trwyddedu dros gofrestru), mae'r datganiad ysgrifenedig yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn i swyddogion ddatblygu cynllun trwyddedu o'r fath ar gyfer arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid. Bydd hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac asesiad effaith rheoleiddiol. O ran gwaharddiad, mae'r [Crynodeb o Ymatebion](#) yn nodi:

Rhaid cydnabod y teimladau cryfion ymhlith yr ymatebwyr o blaid gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau yng Nghymru. Bydd swyddogion yn para i weithio gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ystyried materion trawsffiniol.

## Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Mae [Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18](#) yn cynnwys dwy garreg filltir allweddol ar gyfer arddangosfeydd teithiol o

anifeiliaid. Yn gyntaf, cynnal ymgynghoriad ar ddichonoldeb cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer ADA, a bod yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau. Yn ail, cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r camau nesaf i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd.

Mae'r cynllun gweithredu yn nodi:

O dan Ddeddf Cymru 2017, mae cyfle i ystyried yr opsiwn o wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau.

### Yr ymateb i'r ddeiseb

Cafwyd ymateb i'r ddeiseb gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 29 Tachwedd 2017. Mae'r ymateb hwn yn ailadrodd y sefyllfa a nodir yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio'r camau nesaf o ran cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer ADA. Nododd hefyd:

At present there are no circuses based in Wales and I have not dismissed the possibility of working with the UK Government to bring in a joint ban on the use of wild animals in circuses. Officials attend regular meetings with Defra and the Devolved Administrations and are committed to moving this policy area forward.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lesley Griffiths AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-796  
Ein cyf/Our ref LG/05175/17

David John Rowlands AM

[government.committee.business@wales.gsi.gov.uk](mailto:government.committee.business@wales.gsi.gov.uk)

November 2017

Dear David

Thank you for your letter of 21 November regarding a petition from Linda Evelyn Joyce Jones on banning the use of wild animals in circuses in Wales.

The Welsh Government is committed to ensuring a high standard of welfare for all animals kept in Wales is maintained at all stages of their life. The way we treat animals is an important reflection of the values of our society. Animals should be protected from pain, injury, fear and distress.

I recognise there is concern the welfare needs of some animals kept by Mobile Animal Exhibits (MAEs), including circuses, cannot be met in a travelling environment. MAEs are diverse and there is no standard licensing regime or requirement for routine inspection. We must decide whether or not a change of policy and/or the law is required in Wales to protect the welfare of animals in MAEs. A licensing or registration scheme could improve the welfare of animals in travelling environments and also legitimise businesses operating as MAEs in Wales.

With this in mind, I have recently consulted on the introduction of a licensing or registration scheme for MAEs. I also asked for views on banning the use of wild animals in circuses. The public consultation, which lasted 12 weeks, closed for responses on 8 October 2017.

Officials are now analysing responses to the consultation, the first on this subject, which will be used to inform the next steps. Details of the outcome will be published on the Welsh Government website in due course.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 49

At present there are no circuses based in Wales and I have not dismissed the possibility of working with the UK Government to bring in a joint ban on the use of wild animals in circuses. Officials attend regular meetings with Defra and the Devolved Administrations and are committed to moving this policy area forward.

Regards  
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

# Submission to the Petitions Committee of the Welsh Assembly.

## Petition title “calling on the Welsh Government to ban the use of wild animals in circuses in Wales”

Thank you for giving me this opportunity to provide this supporting statement .  
Lesley Griffiths' AM Cabinet Secretary for Energy Planning and Rural Affairs in response to my petition stated “ the way we treat animals is an important reflection of the values of our society. Animals should be protected from pain, injury, fear and distress “.

### The present position in Wales

Although no animal circuses are currently based in Wales, many do extensively tour our country. Attracted no doubt by the fact that we have a thriving tourist industry. Circus Mondao visit every year from April until July . Peter Jolly's Circus usually tour for two months or so dipping in and out of Wales, the last time they visited was 2016. Thomas Chipperfield toured Wales extensively in 2015 with his “educational show ” An Evening with Lions and Tigers (he and his big cats formally toured with Peter Jolly's Circus ). In total these circuses that feature wild animals are on the road for nine months of the year in England and Wales.

They use private land, as many if not all Councils in Wales will not allow them to use their land. The sites they use include land at garden centres, car boots sales, caravan and holiday parks, sea fronts and beaches. Together with land close to major roads like the A55 in north Wales, dual carriageways in Cardiff, Swansea, Hengoed and Neath. Land seems easier to find in the north which is more rural, and of course attracts more tourists. The circuses have teams of people who move into an area two weeks before their circus arrives. They put up their posters by illegally fly posting anywhere they can ( these remain long after they have left ) even in areas of outstanding natural beauty such as the Snowdonia National Park. Once their circus arrives in a town the signs on the highway go up, again illegally without the permission of the LA. They make their money, they leave so bring nothing to the economy of Wales . They also take no account of our culture, history or more importantly our Welsh language .

To keep wild animals they need a licence, which is granted by the LA where they are based. To tour they need a licence which is granted and policed by DEFRA. But at the present time this licence only extends to touring England. When I met with Councillor Dafydd Meurig and Ms Gwenan Mai Roberts, Public Protection Manager - Pollution Control and Licensing of

Gwynedd Council. They made it clear to me the challenges a visiting circus presents to their already stretched department. Ms Roberts also stated her colleagues felt they were operating with “one hand tied behind our backs “ . They can be refused entry to the private land to inspect the conditions the animals are kept in. Ms Roberts also admitted as far as the animals go “ we can only really check if their basic needs are provided for, and that they are moving around normally and their eyes, coats etc look okay “ . When Thomas Chipperfield visited Gwynedd in 2015 she stated that she was faced with “very challenging circumstances “ when she and a colleague inspected them.

If any concerns are identified then action can be taken, for instance to contact the RSPCA. But they often need police assistance to gain entry. By which time the circus has moved on, usually the longest period they remain in one spot in Wales is seven days. There has been only three successful prosecutions for animal cruelty in relation to animal circuses in England . Two of these related to the time the animals were in their winter quarters , so not on the road.

